Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	14.03.25
Pwnc / Subject:	Cadeirydd ETRA i Estyn – Profiad Gwaith

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

At ei gilydd, rydym o'r farn fod disgyblion yn elwa ar gyfleoedd profiad gwaith ystyrlon pan fyddant yn gallu cymryd rhan ynddynt. Dros y degawd diwethaf, bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr ysgolion sy'n cynnig profiad gwaith cyffredinol i bob disgybl. Fodd bynnag, ers y pandemig,bu tuedd amlwg ar i fyny mewn ysgolion yn ailsefydlu rhaglenni profiad gwaith.

Mae'r prif rwystrau rhag cynnig cyfleoedd profiad gwaith priodol yn cynnwys cyfyngiadau amser o ganlyniad i gwricwlwm llawn, capasiti ysgolion a chael Gyrfa Cymru i drefnu a fetio lleoliadau, materion cyllid, ac argaeledd lleoliadau o ansawdd uchel, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae ysgolion yn cydnabod manteision profiad gwaith ac yn ei ddarparu, yn aml trwy dargedu disgyblion bregus neu'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

Mae effeithiolrwydd profiad gwaith yn amrywio. Mae disgyblion yn nodi eu bod yn gweld profiad gwaith yn fuddiol i'w cynorthwyo ag opsiynau gyrfaoedd a dewisiadau o ran y cwricwlwm. Mae hefyd yn helpu cymell rhai dysgwyr ac yn ennyn eu diddordeb, gan eu helpu i aros yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae gan ansawdd lleoliadau a chymhelliant disgyblion rôl hanfodol yn llwyddiant y rhaglenni hyn. Lle ceir arferion gorau, mae hyn yn aml yn cynnwys cynlluniau cynhwysfawr i fodloni gofynion fframwaith gyrfaoedd, cydweithio rhwng ysgolion, Gyrfa Cymru, a busnesau lleol, ac ymagwedd amlasiantaethol at gefnogi disgyblion bregus.

I gryfhau cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, rydym o'r farn y byddai'n fuddiol:

- cynyddu cyllid ar gyfer ysgolion a Gyrfa Cymru i gefnogi'r sefydliad a fetio lleoliadau profiad gwaith
- hyrwyddo cydweithio agos rhwng ysgolion, Gyrfa Cymru a busnesau lleol
- rhoi rhaglenni profiad gwaith targedig ar waith ar gyfer disgyblion bregus a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd
- sicrhau lleoliadau profiad gwaith o ansawdd uchel sy'n darparu profiadau gwaith gwerthfawr ac yn cyd-fynd â diddordebau disgyblion o ran gyrfaoedd

- mynd i'r afael â'r rhwystrau i ddisgyblion ag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai o ardaloedd difreintiedig i sicrhau cyfle teg i fanteisio ar gyfleoedd profiad gwaith.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

A yw pob ysgol yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith ystyrlon? Os na, beth yw'r rhwystrau a beth ellir ei wneud i fynd i'r afael â nhw?

Mae profiadau gwaith yn agwedd allweddol ar fframwaith arolygu Estyn ar gyfer ysgolion ac UCDau. Fodd bynnag, nid ydym yn casglu gwybodaeth benodol fel mater o drefn am nifer yr ysgolion sy'n cynnig profiad gwaith, a nifer y disgyblion sy'n manteisio arno. Pe bai Estyn yn cynnal arolygiad thematig am brofiad gwaith yn y dyfodol, byddem yn gallu darparu gwybodaeth fwy penodol. Yn gyffredinol, dros y degawd diwethaf, bu gostyngiad yn nifer yr ysgolion sy'n cynnig profiad gwaith cyffredinol i ddisgyblion. Fodd bynnag, bu tuedd amlwg ar i fyny mewn ysgolion sy'n dechrau gwneud hynny eto ers y pandemig.

Dyma'r prif rwystrau rhag gwneud hynny:

- Amser, mae ysgolion yn nodi bod llawer o ofynion yn cael eu rhoi ar eu cwricwlwm, gan gynnwys yr angen i gynnig profiadau allgyrsiol a darparu oriau dysgu digonol i fodloni gofynion manylebau arholiad
- Capasiti ysgolion i drefnu a fetio lleoliadau ac ymweld â disgyblion sy'n mynd ar y lleoliadau. Dywed ysgolion fod rhaid iddynt leihau nifer y staff cymorth i fodloni cyfyngiadau cyllidebol
- Capasiti Gyrfa Cymru i gefnogi'r broses i drefnu a fetio lleoliadau profiad gwaith
- Argaeledd lleoliadau profiad gwaith o ansawdd uchel ledled Cymru (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig)

Cefndir

- Arferai llawer o ysgolion uwchradd gynnig profiad gwaith am wythnos lawn tuag at ddiwedd tymor yr haf (fel arfer ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12)
- Roedd Gyrfa Cymru yn cefnogi ysgolion trwy nodi lleoliadau priodol a chynnal gwiriadau diogelu ar ddarparwyr profiad gwaith
- Hefyd, datblygodd ysgolion gysylltiadau â busnesau perthnasol a sefydliadau eraill yn eu hardal a allai gynnig lleoliadau. At ei gilydd, roedd y rhain yn diwallu anghenion ychydig o ddisgyblion, ond, yn gyffredinol, roedd yn rhaid i fwyafrif y disgyblion a'r rhieni nodi lleoliadau profiad gwaith addas eu hunain

- Arweiniodd gostyngiad mewn cyllid ar gyfer Gyrfa Cymru at dynnu cefnogaeth yn ôl ar gyfer fetio lleoliadau profiad gwaith; yn hytrach, creon nhw gronfa ddata o ddarparwyr a oedd wedi cael eu fetio o'r blaen, a threfnu bod hyn ar gael i ysgolion
- Roedd y newid hwn yn ei gwneud yn anodd iawn i ysgolion gynnal profiad gwaith i bawb oherwydd diffyg capasiti i sicrhau diogelwch disgyblion; roedd baich gweinyddol cynyddol ar fusnesau, hefyd (a chostau yswiriant cynyddol o bosibl os oeddent yn cymryd disgyblion ar gyfer profiad gwaith) ac roedd hyn yn lleihau nifer y sefydliadau a oedd yn barod i gynnig lleoliadau
- Dywedodd yr ysgolion hynny a oedd wedi rhoi'r gorau i ddarparu profiad gwaith cyffredinol ar gyfer yr holl ddisgyblion fod yr heriau hyn yn ffactorau sy'n dylanwadu ar eu penderfyniad
- Cymaint roedd rhai ysgolion yn gwerthfawrogi effaith profiad gwaith eu bod yn parhau ag ef. Mewn rhai achosion, roedd hwn yn benderfyniad a wnaed gan grwpiau o ysgolion, e.e. grwpiau o ysgolion yn gwneud penderfyniad gyda'i gilydd ar Ynys Môn
- Yn hytrach na phrofiad gwaith cyffredinol, symudodd ysgolion, wedi'u cefnogi gan Gyrfa Cymru, at fodel i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer ychydig o ddisgyblion targedig (disgyblion bregus, yn nodweddiadol neu'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol o ddarpariaeth brif ffrwd) ochr yn ochr â gwybodaeth fanylach a roddir i ddisgyblion am yrfaoedd a'r byd gwaith mewn gwersi
- Hefyd, lleihaodd Gyrfa Cymru faint o amser yr oedd ei gynghorwyr yn ei dreulio mewn ysgol o ganlyniad i lai o gyllid, ac roedd hyn yn golygu symud oddi wrth gyfweliadau gyrfaoedd ar gyfer pob un o'r disgyblion at ddull targedig ar gyfer y rhai sydd fwyaf angen cymorth (e.e. mewn perygl o fod yn bobl NACH)
- Roedd Gyrfa Cymru yn hyrwyddo'r syniad o 'ddosbarthiadau meistr' mewn gyrfaoedd penodol. Y syniad oedd y gallai ysgolion fwcio ymarferwyr presennol i roi trosolwg i ddisgyblion â diddordeb o'r hyn y mae gyrfa benodol yn ei olygu
- Pan gyflwynwyd y fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith i ddechrau, cyflwynodd ychydig o ysgolion wersi gyrfaoedd ar wahân lle roedd athrawon arbenigol yn addysgu'r gwahanol elfennau o fewn y fframwaith. Mae'r dull hwn wedi diflannu i raddau helaeth o blaid un trawsgwricwlaidd, lle caiff agweddau ar yrfaoedd a'r byd gwaith eu haddysgu mewn ABCh, CBC ac ychydig o bynciau perthnasol
- Mae llawer o ysgolion yn ystyried lleoliadau gwaith wythnosol ar gyfer disgyblion hynod fregus fel rhan o drefniadau cwricwlwm amgen pwrpasol
- Ers y pandemig, mae nifer gynyddol o ysgolion yn ailsefydlu rhaglenni profiad gwaith.

Effaith

- Mae effeithiolrwydd profiad gwaith cyffredinol yn hynod amrywiol ac yn gysylltiedig ag ansawdd y lleoliad, yn ogystal â chymhelliant a blaengaredd y disgybl unigol i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'n drawsnewidiol i rai disgyblion ac yn arwain naill ai at ddewis gyrfa benodol neu lawer mwy o ymgysylltiad ag addysg i gyflawni nod newydd a ganfuwyd. I'r gwrthwyneb, lle mae'n llai effeithiol, nid yw disgyblion yn mynychu profiad gwaith o gwbl neu maent yn gadael ar ôl cyfnod byr, neu maent yn treulio'u hamser yn cwblhau tasgau anfedrus nad ydynt yn rhoi llawer o fewnwelediad i fyd gwaith. Mae'r profiad i'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn disgyn rhwng yr eithafion hyn; maent yn aml yn mwynhau'r amgylchedd sy'n wahanol iawn i fywyd ysgol ac yn dechrau ennill dealltwriaeth werthfawr o'r hyn mae byd gwaith yn ei olygu
- Mae rhaglenni cwricwlwm amgen ar gyfer disgyblion bregus sy'n ymgorffori elfen o brofiad gwaith yn aml yn helpu cadw disgyblion mewn addysg brif ffrwd y gallent ymddieithrio oddi wrthi, fel arall.

A oes unrhyw arfer orau benodol y dylid ei hatgynhyrchu ledled Cymru?

Mae arfer orau a welwyd yn ystod arolygiadau ysgolion yn cynnwys:

- Cynlluniau cynhwysfawr a chydlynus i fodloni gofynion y fframwaith gyrfaoedd a byd gwaith (mewn ysgolion cynradd ac uwchradd)
- Cydweithio agos rhwng ysgolion, Gyrfa Cymru a busnesau lleol i roi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am fyd gwaith
- Offer mapio gyrfaoedd sy'n rhoi cyngor diduedd i ddisgyblion am wahanol lwybrau gyrfa
- Digwyddiadau gyrfaoedd ar gyfer disgyblion a rhieni
- Ymagwedd amlasiantaethol at gefnogi disgyblion bregus
- Cydweithio rhwng ysgolion a cholegau i sicrhau bod disgyblion yn wybodus cyn iddynt benderfynu ar eu camau nesaf.

Yn **Ysgol Gyfun y Strade**, cyflwynwyd rhaglen 'Strade yn y Gymuned'. Nod y rhaglen yw ehangu profiadau dysgu grwpiau o ddysgwyr sydd â lefelau isel o ymgysylltiad, ymddygiadau heriol neu bresenoldeb gwael.

Mae'r ysgol yn cydweithio â thros 15 o wasanaethau, sefydliadau a busnesau lleol i dargedu dysgwyr penodol ag ymyriadau priodol. Er enghraifft, roedd grŵp o ferched Blwyddyn 10 sydd â chymhelliant isel ac agweddau negyddol at ddysgu yn mynychu cartref gofal lleol am brynhawn yr wythnos am gyfnod o 8 wythnos. Roeddent yn ymgymryd â thasgau gofalu sylfaenol gyda chymorth ac felly'n datblygu eu hyder a'u

medrau cyfathrebu yn dda. Arweiniodd hyn yn ei dro at welliant mewn ymddygiad yn ôl yn yr ysgol.

O'r adroddiad arolygu ar Goleg Crist, Aberhonddu:
Mae 'Rhaglen y Dyfodol' ('Futures Programme'), sy'n cwmpasu arweiniad yn gysylltiedig â llwybrau gyrfaoedd a'r dyfodol, wedi hen ennill ei phlwyf ac yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol annibynnol hon trwy gydol yr ysgol hŷn. Mae pob un o'r staff addysgu yn cymryd rhan mewn cyflwyno a datblygu'r rhaglen, ac mae'r rhaglen wedi'i seilio ar ethos yr ysgol o ran gofal personoledig ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddatblygedig o fyd gwaith ac ehangder y cyfleoedd a'r llwybrau sydd ar gael iddynt y tu hwnt i'r ysgol. O ganlyniad i'r gwaith hynod effeithiol a wna'r ysgol i gefnogi ceisiadau prifysgol, mae cyfran uchel o ymadawyr Blwyddyn 13 yn symud ymlaen i'w dewis cyrchfan, er enghraifft astudio mewn prifysgol, prentisiaethau neu gyflogaeth.

Yn aml, mae ysgolion arbennig a gynhelir yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr am fyd gwaith, e.e. Heronsbridge, Maes Y Coed, Hen Felin, Maes Ebbw ac Ysgol Uwchradd Woodlands.

Mae'r dolenni canlynol ar gyfer astudiaethau achos perthnasol o'r ddwy flynedd ddiwethaf:

Ysgol Llanfair Dyffryn Clywyd
Datblygu gweithgareddau yn yr awyr agored sy'n canolbwyntio ar gynnig profiadau am yrfaoedd galwedigaethol i ddisgyblion. - Estyn

Ysgol Uwchradd Gatholig Mair Ddihalog
Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol - Estyn

Ysgol Idris Davies
Arweinyddiaeth cymorth ysgol effeithiol ar gyfer disgyblion dan anfantais a bregus - Estyn

Ysgol Stanwell
Cefnogi dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus ar gyfer y dyfodol - Estyn

Coleg Penybont
Interniaethau a phrofiad gwaith a gefnogir, sy'n arwain at gefnogaeth â thâl ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau. - Estyn

Mae'r dolenni canlynol ar gyfer adroddiadau thematig perthnasol diweddar:
Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru

Adolygiad Gweithiwr Arweiniol Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid

I ba raddau y mae'n rhaid i rieni neu ofalwyr sicrhau lleoliadau profiad gwaith o ganlyniad i'r diffyg capasiti, neu'r gallu, i wneud hynny mewn ysgolion?

- Mewn ysgolion lle mae profiad gwaith cyffredinol wedi parhau neu wedi cael ei ailgyflwyno, mae gan rieni rôl bwysig mewn dod o hyd i leoliadau gwaith. Wedyn, mae ysgolion yn gweithio gyda'r disgyblion nad yw eu rhieni wedi gallu dod o hyd i leoliadau profiad gwaith addas
- Ar Ynys Môn, mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cyflogi unigolyn sy'n nodi ac yn fetio lleoliadau profiad gwaith priodol
- Pan fydd ysgolion yn defnyddio lleoliadau gwaith fel rhan o gwricwlwm amgen pwrpasol ar gyfer niferoedd bach o ddisgyblion bregus, mae staff fel arfer yn dod o hyd i'r cyfleoedd hyn, ac yn eu fetio.

A oes unrhyw rwystrau ar gyfer dysgwyr penodol y mae angen mynd i'r afael â nhw, er enghraifft dysgwyr ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol, o ardaloedd difreintiedig?

- Gall sicrhau lleoliadau profiad gwaith fod yn heriol i lawer o ddisgyblion, ond i ddysgwyr penodol fel y rhai ag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), neu'r rhai o ardaloedd difreintiedig, gall yr heriau hyn fod hyd yn oed yn fwy amlwg. I ddisgyblion ag anableddau ac ADY, efallai fod cronfa fwy cyfyngedig o leoliadau profiad gwaith posibl. Efallai bod gan gyflogwyr bryderon am y lleoedd sydd eu hangen neu efallai eu bod yn teimlo nad ydynt yn barod i gefnogi'r dysgwyr hyn yn ddigonol. O ganlyniad, gall dod o hyd i leoliadau addas fod yn fwy heriol.
- I ddisgyblion o ardaloedd difreintiedig, efallai nad oes yr un lefel o gefnogaeth gan rieni, e.e. dod o hyd i leoliad profiad gwaith, os oes angen neu allu cludo disgybl i leoliad, os oes angen. Gall hyn effeithio ar eu gallu i ddod o hyd i leoliadau profiad gwaith, oherwydd efallai nad oes gan rieni'r adnoddau neu'r rhwydweithiau i helpu. Yn ychwanegol, gall cludiant i leoliadau fod yn rhwystr sylweddol os na all rhieni ddarparu'r cymorth hwn.
- Mae disgyblion ag anableddau, ADY neu o gefndiroedd difreintiedig yn elwa ar ymagwedd bersonoledig, fel cael gweithiwr achos i ddarparu cymorth ychwanegol. Dylid teilwra rhaglenni profiad gwaith i ddiwallu anghenion amrywiol disgyblion. Dylai ysgolion ystyried cynnig amrywiaeth o leoliadau mewn gwahanol ddiwydiannau, gan sicrhau bod pob disgybl yn gallu manteisio ar gyfleoedd sy'n gweddu i'w diddordebau a'u nodau gyrfa. Mae lleoliadau personoledig yn gwneud profiad gwaith yn fwy perthnasol a difyr i ddisgyblion, yn enwedig y rhai ag ADY neu'r rhai o gefndiroedd difreintiedig.

- Mae meithrin partneriaethau cryf, sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, gyda busnesau a sefydliadau lleol, yn allweddol i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith ystyrlon. Gall ysgolion ac UCDau fynd at bartneriaid posibl, gan amlygu manteision cydweithio i ddisgyblion a busnesau, fel ei gilydd. Yn ychwanegol, dylai ysgolion ystyried cydweithio â rhwydweithiau cyn-ddisgyblion i greu cyfleoedd o ran lleoliadau.